Atodiad A

# YSGOLION YR 21AIN GANRIF









# ADRODDIAD YMGYNGHORI

## YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD Y RHIGOS A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD HIRWAUN

Mae'r Adroddiad Ymgynghori a'r Atodiadau hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor

RHONDDA CYNON TAF

# Tabl Cynnwys


| Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cynnig | 2 |
| 2. | Nod yr Adroddiad Ymgynghori | 2 |
| 3. | Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori? | 2 – 3 |
| 4. | Y broses ymgynghori | 3 – 4 |
| 5. | Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 4 – 20 |
| 6. | Ymateb Estyn | 20 – 21 |
| 7. | Asesiad o'r Ymgynghoriad | 21 - 22 |
| 8. | Casgliad | 22 |
| **Atodiadau** | | |
| 1 (A) | Ymateb Estyn (Saesneg) | |
| 1 (B) | Ymateb Estyn (Cymraeg) | |
| 2 (A) | Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Gynradd Hirwaun | |
| 2 (B) | Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Gynradd y Rhigos | |
| 3 (A) | Cofnodion cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gynradd Hirwaun | |
| 3 (B) | Cofnodion cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gynradd y Rhigos | |
| 4 (A) | Ymateb y Pwyllgor Gweithredu ar ran cymuned y Rhigos | |


DRAFT

# 1. Cynnig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos. Bydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun yn lle.

Cynigir y bydd Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau ac y bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn mis Medi 2024 fan bellaf.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru. Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy’n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Cau ysgol a gynhelir.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Asesiadau o Effaith a gafodd eu dosbarthu i'r holl randdeiliaid. Mae’r ddolen i’r dogfennau yma isod:

Ymgynghoriad ar gynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

# 2. Nod yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru. Ei nod yw rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid sydd wedi'u rhestru isod am ganlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal rhwng 2 Hydref 2023 a bydd yn dod i ben am 5pm ar 17 Tachwedd 2023.

# 3. Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori?

Cafodd copi o'r Ddogfen Ymgynghori, a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y Ddogfen Ymgynghori ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Byddwn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff Llywodraethu:
  - Ysgol Gynradd y Rhigos
  - Ysgol Gynradd Hirwaun
  - Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn
- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff:

  - Ysgol Gynradd y Rhigos
  - Ysgol Gynradd Hirwaun
- Disgyblion:
  - Ysgol Gynradd y Rhigos
  - Ysgol Gynradd Hirwaun
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidogion Cymru
- Aelodau'r Senedd ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal
- Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal
- Darparwyr Gofal Plant
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Cymuned y Rhigos
- Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn

# 4. Y broses ymgynghori

Cafodd dolen at gopïau electronig o'r ddogfen ymgynghori ei hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi. Daeth copïau papur i law pob un a wnaeth gais am un. Mae'r tabl sy'n dilyn hefyd yn amlinellu'r cyfarfodydd a gafodd eu cynnull gyda'r Cyrff Llywodraethu ac Aelodau Staff a'r Cynghorau Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos.

| **Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio** | **Cyfadran** | **Amser/Dyddiad** | **Lleoliad** |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Ysgol** | | | |
| Ysgol Gynradd y Rhigos | Cyngor Ysgol | Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023 rhwng 1.30pm a 2.30pm | Ysgol Gynradd y Rhigos |
| Ysgol Gynradd Hirwaun | Cyngor Ysgol | Dydd Mawrth, 7 Tachwedd rhwng 1.30pm a 2.30pm | Ysgol Gynradd Hirwaun |
| **Corff Llywodraethu a Staff** | | | |
| Ysgol Gynradd y Rhigos | Corff Llywodraethu a Staff | Dydd Iau, 26 Hydref 2023 rhwng 3.30pm a 5pm | Ysgol Gynradd y Rhigos |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Hirwaun | Corff Llywodraethu a Staff | Dydd Iau 26 Hydref 2023 rhwng 3.30pm a 5pm | Ysgol Gynradd Hirwaun |

Cafodd yr holl gyfarfodydd ar gyfer Cyrff Llywodraethu a Staff sydd wedi'u hamlinellu yn y tabl blaenorol eu cynnal wyneb yn wyneb. Cafodd cofnodion y cyfarfodydd yma eu cymryd ac maen nhw wedi'u hatodi yn Atodiad 2 (A i B). Maen nhw'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd. Cafodd yr ymatebion eu darparu lle'r oedd hynny'n briodol.

Cafodd holl gyfarfodydd y Cyngor Ysgol sydd wedi'u hamlinellu yn y tabl blaenorol eu cynnal yn yr ysgolion cyfatebol. Aethon ni ati i gynhyrchu fersiwn plant a phobl ifainc o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad. Cafodd cofnodion y cyfarfodydd yma eu cymryd ac maen nhw wedi'u hatodi yn Atodiad 3 (A i B). Maen nhw'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd. Cafodd yr ymatebion eu darparu lle'r oedd hynny'n briodol.

Cafodd dwy sesiwn galw heibio eu trefnu hefyd er mwyn i aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu dyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd.

| **Sesiwn galw heibio i'r cyhoedd** | | |
|---|---|---|
| Rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol | Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023 rhwng 3pm a 6pm | Ysgol Gynradd y Rhigos |
| | Dydd Mawrth, 7 Tachwedd rhwng 3pm a 6pm | Ysgol Gynradd Hirwaun |

Yn y sesiynau galw heibio yma, gofynnwyd i bawb gofnodi i mewn er mwyn cofnodi'r lefel bresenoldeb. Mae'r gofrestr bresenoldeb yn nodi bod 69 o bobl wedi cofrestru yn sesiwn Ysgol Gynradd y Rhigos, ond dylid hefyd nodi mai'r gred yw bod y ffigur hwnnw'n uwch gan fod rhagor o bobl wedi mynychu ond heb gofrestru.
Mynychodd 3 pherson y sesiwn yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Roedd y sawl a fynychodd yn cynnwys aelodau'r Corff Llywodraethu, aelodau etholedig lleol, trigolion lleol, rhieni/gwarcheidwaid, disgyblion a staff.

Gofynnwyd i'r sawl a fynychodd gwblhau Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad a'i chyflwyno.

# 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yng nghyfarfodydd y cyrff llywodraethu a'r staff a chyfarfodydd y Cyngor Ysgol wedi'u crynhoi yn nodiadau'r cyfarfodydd sydd wedi'u hatodi yn Atodiad 2 (A i B) ac Atodiad 3 (A i B) yn y drefn honno.

Cyhoeddodd bwyllgor gweithredu 'Save Rhigos Primary School' a sefydlwyd ar ran cymuned y Rhigos, dair deiseb wahanol. Ychwanegwyd 784 o lofnodion at y ddeiseb ar-lein

DRAFT

(mae hyn yn cael ei ystyried yn un ymateb at ddiben yr adroddiad yma), ac ychwanegwyd 974 a 65 o lofnodion at y ddwy ddeiseb ar wahân ar bapur, ac mae'r rhain yn cael eu hystyried yn ddau ymateb ar wahân at ddiben yr adroddiad yma. Mae cyflwyniad ymgynghoriad y grŵp yma wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Yn ogystal â hyn, derbyniwyd 236 o ymatebion ysgrifenedig - roedd 89 ohonyn nhw'n ysgrifenedig/drwy e-bost a daeth yr 147 ymateb arall drwy'r arolwg ar-lein. Pan anfonwyd e-byst gan unigolion i sawl derbynnydd, mae'r e-byst hynny wedi'u cyfrif yn un ymateb.

Cafodd gyfanswm o 239 o ymatebion eu cyflwyno. Roedd 3 (1.3%) o blaid y cynnig, roedd 226 (94.5%) yn erbyn, roedd 1 (0.4%) yn ansicr a wnaeth 9 (3.8%) ddim nodi ateb. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y tabl sy'n dilyn.

| **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** | | |
|---|---|---|
| **Penderfyniad** | **Rhif** | **%** |
| O blaid | 3 | 1.3 |
| Yn erbyn | 226 | 94.5 |
| Ddim yn siŵr | 1 | 0.4 |
| Dim ateb | 9 | 3.8 |
| **Cyfanswm** | **239** | **100.0** |

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru, ceir crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad yn y tabl sy'n dilyn, ynghyd ag eglurhad (lle bo angen).

Er cyflawnrwydd, dylid nodi bod nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cynnwys datganiadau a sylwadau mewn perthynas â phroblemau gwleidyddol, ymddygiad staff a materion ehangach y Cyngor sydd ddim yn ymwneud â gofynion penodol ymgynghoriad ysgol, a dydy'r sylwadau yma ddim wedi'u cynnwys yn y crynodeb isod. Bydd cyfle i'r rheiny sy'n dymuno trafod unrhyw bryderon eraill ynghylch y materion yma wneud hynny y tu hwnt i'r broses ymgynghori. Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i fynegi eich barn ar wefan y Cyngor.

I gadarnhau, mae pob sylw a mater sydd wedi'u cyflwyno yn ystod yr ymgynghoriad ar gael ac maen nhw wedi'u hadolygu gan aelodau o Gabinet y Cyngor.

| **Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig** | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | Pa gymorth bydd ar gael ar gyfer disgyblion ADY? | Bydd pob disgybl ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae Deddf ALNET yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol (ALlau) wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifainc. Mae gan blant a phobl ifainc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddyn nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer.<br><br>Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn argymell bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn rhoi ymateb graddedig ar waith er mwyn diwallu'r anghenion yma. Mae ymateb |

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | | graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn / person ifanc.<br><br>Byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb yma waeth pa fath o ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu. |
| | Bydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn teimlo ar goll mewn ysgol maint Ysgol Gynradd Hirwaun. | Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae dyletswydd a chyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, waeth beth yw maint yr ysgol.<br><br>Efallai bydd creu ysgolion mwy yn meithrin gallu o fewn strwythurau staffio ac yn creu cyfleoedd i ddatblygu swyddi lles a/neu gyswllt teuluol mwy arbenigol a fydd yn amlwg o fudd i blant a theuluoedd mwy agored i niwed. |
| **Derbyn disgyblion** | Fydd fy mhlentyn ddim yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun. | Dewis y rhiant/gwarcheidwad yw ysgol y plentyn. Byddwn ni'n ymdrin â cheisiadau yn unol â chod Derbyn Disgyblion yr Ysgol. |
| | Beth os nad ydw i am i fy mhlentyn fynychu Ysgol Gynradd Hirwaun? | |
| | Adroddiadau am broblemau gyda chofrestru ar gyfer Ysgol Gynradd y Rhigos ar gyfer mis Medi 2024. | Yn ystod y cyfnod ymgeisio rhwng 1 Medi a 10 Tachwedd, derbyniodd y Cyngor geisiadau ar-lein ar gyfer plant oed cyn-meithrin, meithrin a derbynfa yn Ysgol Gynradd y Rhigos ar gyfer y flwyddyn academaidd sy'n dechrau medi 2024.<br><br>Roedd cyfnod yn ystod y cyfnod ymgeisio pan nad oedd modd i rieni ledled RhCT wneud cais ar-lein gan fod gwaith allweddol yn cael ei gynnal ar y system rhwng 2 Hydref a 3 Hydref. Cafodd y neges yma ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.<br><br>Mae'r garfan derbyn disgyblion wedi cadarnhau ei bod hi wedi derbyn galwad ffôn gan riant o ysgol y Rhigos yn gwneud cais am gopi caled o'r ffurflen ymgeisio, ond daeth i'r amlwg bod y rhiant eisoes wedi cyflwyno cais ar-lein yn llwyddiannus. Cafodd y rhiant wybod hyn ar y pryd. |
| | Oes darpariaeth meithrinfa llawn amser ar gael yn | Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnig darpariaeth meithrinfa lawn amser. |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | Ysgol Gynradd Hirwaun? | |
| **Gweithgareddau allgyrsiol** | Sut bydd disgyblion yn manteisio ar glybiau ar ôl ysgol? | Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu clybiau ar ôl ysgol ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad ydyn nhw'n ofyniad statudol.<br><br>Gan mai dyma'r achos ledled RhCT, fydd dim cludiant ar gael rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn manteisio ar y gweithgareddau yma. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. |
| | Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd y cynnig yn darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, ond bydd hyn yn lleihau oherwydd y problemau yn ymwneud â chludiant. | Mae hyn yn cyfeirio at y nifer o fannau aml-fynediad mewnol ac allanol sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Hirwaun y mae modd manteisio arnyn nhw at y dibenion yma. Mae cyfleusterau hygyrch Ysgol Gynradd Hirwaun yn arwain at ragor o gyfleoedd.<br><br>Mae trefn cludiant wedi'i nodi uchod. |
| | Mae llawer o weithgareddau allgyrsiol eisoes ar gael yn Ysgol y Rhigos. | Does neb yn gwadu hyn; mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi mai barn y Cyngor yw bod Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol dda. Nodwyd yn yr Asesiad Effaith Cymunedau bod clybiau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal yn y ddwy ysgol. |
| | Bydd yr amrywiaeth o glybiau ar ôl ysgol yn dal i fod ar gael yn Hirwaun? | Cadarnhawyd hyn yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned - 'There are after school clubs being run at both Rhigos and Hirwaun Primary School, and clubs currently running at Rhigos Primary School can continue at Hirwaun'. |
| **Clwb Brecwast** | Sut bydd disgyblion yn manteisio ar glybiau brecwast? | Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu clybiau brecwast ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad ydyn nhw'n ofyniad statudol. Gan mai dyma'r achos ledled RhCT, fydd dim cludiant ar gael rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn manteisio ar y gweithgareddau yma. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.<br><br>Fodd bynnag, os oes unrhyw blentyn sy'n defnyddio cludiant i'r ysgol yn dymuno cael brecwast ar ôl cyrraedd yr ysgol, byddwn ni'n sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn eu bod nhw'n derbyn brecwast.<br><br>Mae'r clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn boblogaidd iawn ac mae oddeutu 53 o ddisgyblion yn |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | | derbyn brecwast yno bob dydd. Y nifer cyfartalog o ddisgyblion sy'n manteisio ar glwb brecwast yn y Rhigos yw 13, felly bydd digon o le ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno cael brecwast. Mae'r ffigurau yma wedi'u cyfrifo yn gyfartaledd dyddiol ar gyfer presenoldeb dros hanner tymor cyntaf blwyddyn academaidd 2023/24. |
| | Cafodd clwb brecwast Ysgol y Rhigos ei bleidleisio'r gorau yng Nghymru yn 2022. | Mae'r Cyngor yn effro i'r cyflawniad arbennig yma, ac mae cymuned yr ysgol yn falch iawn. Darparodd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ddatganiad yn llongyfarch yr ysgol ar ôl derbyn y wobr. Mae Gwasanaethau Arlwyo Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am ddarparu clybiau brecwast mewn partneriaeth ag ysgolion. |
| **Cyflwr yr adeilad** | Pam oedd yr arolwg ar gyflwr yr adeilad a'i defnyddiwyd yn bedair blwydd oed? | Mae arolygon ar gyflwr adeiladau'n cael eu cynnal bob pum mlynedd sy'n cydymffurfio â gofynion y diwydiant, felly mae'r arolwg dan sylw yn dal i fod yn ddilys.<br><br>Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru, yn nodi'r canlynol:<br><br>*'Information about the quality of accommodation at all existing schools likely to be affected by the proposals including reference to the Local Authority's most recent (property) condition survey using the categories of the original 21st Century Schools Survey'.*<br><br>Mae'r wybodaeth yma wedi'i chynnwys yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru, Arolwg 2019 oedd yr arolwg mwyaf diweddar, felly defnyddiwyd hwnnw.<br><br>Cafodd copi o'r arolwg ar gyflwr ei rannu â'r rhai a ofynodd am gopi yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. |
| | Faint o waith sydd wedi'i gynnal ar Ysgol Gynradd y Rhigos ers cynnal yr arolwg? | Mae llawer o waith wedi'i gynnal ar Ysgol Gynradd y Rhigos ers cynnal yr arolwg yn 2019. Mae'r gwaith yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<br><br>• Ffenestri a drysau newydd<br>• Ffensys a giatiau newydd<br>• System ddraenio ac arwyneb newydd<br>• Trwsio'r to<br>• Gwaith uwchraddio mecanyddol a thrydanol |
| | Faint o arian sydd wedi'i wario ar Ysgol Gynradd y Rhigos ers 2019? | Mae dros £180,000 wedi'i wario ar Ysgol Gynradd y Rhigos, gan gynnwys y gwiriadau cynnal a chadw cylchol. Mae modd dadansoddi'r ffigur yma fel y ganlyn: |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | | • Gwaith wedi'i gyllido drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw - £94,084.<br>• Gwaith wedi'i gyllido'n uniongyrchol gan y Cyngor - £79,736.<br>• Gwaith wedi'i gyllido gan y cyllid a ddyranwyd i'r ysgol - £7,876. |
| | Pam nad yw'r gwaith sydd wedi'i nodi yn yr arolwg ar gyflwr wedi'i gynnal? | Mae peth o'r gwaith a'i nodwyd yn yr arolwg wedi'i gynnal, fel sydd wedi'i nodi uchod. Mae gwaith yn cael ei gynnal yn rhagweithiol ac yn ymatebol ar draws yr 116 ysgol, ac mae'r gwaith hwnnw wedi'i flaenoriaethu ar sail y cyllid sydd ar gael.<br><br>Yn ogystal â hynny, mae llawer o waith wedi'i gynnal nad oedd wedi'i nodi yn yr arolwg, gan gynnwys gwaith iechyd a diogelwch a diogelu.<br><br>Mae'r arolwg yn nodi cyflwr yr adeilad ac mae'n cael ei ddefnyddio yn arf i'r Cyngor reoli ei eiddo. Mae'r Cyngor yn rheoli 115 o ysgolion ar 116 o safleoedd. Mae Carfan Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor yn cynnal ymweliadau rheolaidd ac yn nodi unrhyw broblemau yn seiliedig ar flaenoriaeth. Mae Ysgol Gynradd y Rhigos wedi bod mewn cyswllt â Charfan Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor yn rheolaidd ac wedi derbyn ymweliadau cyson. |
| | Pam nad yw'r Cyngor wedi gofalu am ei adeiladau? | Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod ei adeiladau'n ddiogel, yn dal dŵr ac yn gynnes. Mae'r Cyngor wedi gwneud hynny. Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae Carfan Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor a'i gontractwyr wedi ymweld ag Ysgol Gynradd y Rhigos yn rheolaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw cylchol ac arolygon o offer mecanyddol a thrydanol.<br><br>Mae pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ac mae gwaith yn cael ei gynnal a'i reoli drwy'r cytundeb yma. Ar sawl achlysur, mae'r Cyngor wedi talu am waith yn Ysgol Gynradd y Rhigos er mai cyfrifoldeb Corff Llywodraethu'r ysgol oedd ei gynnal, gan nad oedd gan yr ysgol ddigon o arian i dalu am y gwaith. |
| | Pam bod un o'r adeiladau yn Ysgol Gynradd y Rhigos wedi cyrraedd 'terfyn ei oes / y tu hwnt i | Rydyn ni'n defnyddio'r term 'y tu hwnt i waith trwsio economaidd' i ddisgrifio ased sydd angen gwaith trwsio a fydd yn costio mwy na gwerth yr adeilad. Dydy hyn ddim yn golygu nad ydy'r adeilad yn ddiogel. |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | waith trwsio economaidd'? Beth mae hyn yn ei olygu? | |
| | Pam na dderbyniodd y Gweithlu ganiatâd i aelod o'r Grŵp Gweithredu i gynnal arolwg? | Mae'r Cyngor yn rheoli 116 o safleoedd felly mae'n bwysig bod yr arolygon yn cael eu cynnal mewn ffordd gyson er mwyn i'r Cyngor reoli ei eiddo addysgol a blaenoriaethu gwaith. Fyddai dim modd cymharu arolwg wedi'i gynnal gan drydydd parti ar ysgol benodol â'n gweithdrefnau ni oherwydd goddrycholdeb y broses o gynnal arolwg.<br><br>Does dim rhagfarn yn rhan o'r arolwg a gynhaliwyd yn 2019. |
| | Sut mae Ysgol Gynradd y Rhigos yn mynd yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | Dydy safle ac adeiladau Ysgol Gynradd y Rhigos ddim yn hygyrch iawn, ond mae modd gwella. Wrth edrych ar nodwedd warchodedig 'anabledd', dydy'r ysgol ddim yn cydymffurfio â'r ddeddf. Oherwydd topograffeg ac oed yr adeiladau, bydd rhai mannau o'r ysgol a'r safle ddim yn hygyrch i'r rheiny sy'n profi anawsterau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Yn ogystal â hynny, does dim ystafell hylendid ar gael yn yr ysgol.<br><br>Bwletin Adeiladu 99 (BB99): Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn defnyddio Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd yn ganllaw i adeiladu ysgolion newydd. Mae BB99 yn nodi'r canlynol:<br>*O ran cyd-destun cynllun y dosbarthiadau, mae 'cwbl hygyrch' yn golygu bod modd i ddisgybl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i bob rhan o'r ystafell, ac felly mae modd iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau'n rhwydd.* |
| **Effaith ar y Gymuned** | Mae'r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn brin o wybodaeth. | I gadarnhau, mae'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru.<br><br>Fodd bynnag, yn ôl y cyngor yn yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned, mae'r ddogfen wedi'i hailasesu a'i diweddaru yn dilyn adolygiad o'r sylwadau sydd wedi'u derbyn trwy gydol y broses ymgynghori. Mae'r fersiwn wedi'i diweddaru o'r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned ar gael ar wefan y Cyngor ar ôl cyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad yn ffurfiol. |

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | Beth fydd yn digwydd ar safle Ysgol Gynradd y Rhigos? Mae’r ddogfen ymgynghori yn crybwyll y byddai modd ei defnyddio er budd i'r gymuned. | Bydd ymgynghoriad ar wahân ar gyfer ystyriaethau ac opsiynau ar unrhyw ddefnydd posibl o safle Ysgol Gynradd y Rhigos yn y dyfodol.<br><br>Os bydd y cynnig yn parhau, bydd cydweithwyr yng ngharfan Datblygu'r Gymuned y Cyngor yn gweithio â chymuned leol y Rhigos i nodi unrhyw opsiynau hyfyw a chynaliadwy i'r gymuned. Bydd carfan Datblygu'r Gymuned hefyd yn cefnogi unrhyw grwpiau yn y gymuned i nodi unrhyw gyllid sydd ar gael i ddiogelu a datblygu unrhyw ddarpariaeth ac yn eu cefnogi nhw i wneud hynny. |
| | Bydd plant yn colli eu hunaniaeth ddiwylliannol os bydd yr ysgol yn cau; eu 'cynefin'. | Bydd nifer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a'u hunaniaeth ddiwylliannol wrth iddyn nhw lywio'r cwricwlwm i Gymru a datblygu eu dysgu trwy wneud ymholiadau.<br><br>Dim ond 2 filltir o'r Rhigos y mae pentref Hirwaun, felly dydyn ni ddim yn disgwyl y bydd hyn yn broblem i unrhyw ddisgybl. |
| | Fydd cylchoedd rhieni a phlant bach sy'n cael eu cynnal yn y Rhigos yn symud i Hirwaun? | Mae'r Cyngor yn effro i'r cylchoedd rhieni a phlant bach sy'n cael eu cynnal yn Ysgol Gynradd y Rhigos un dydd yr wythnos. Mae ystafell arbennig ar gael yn Ysgol Gynradd Hirwaun petai'r arweinydd yn dymuno sefydlu cylch rhieni a phlant bach yn Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| **Deilliannau addysgol** | Fydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos ddim yn derbyn yr un profiadau addysgol yn Ysgol Gynradd Hirwaun.<br><br>Dylai Estyn gynnal arolwg ar y ddwy ysgol cyn dod i benderfyniad. | Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru, mae’r ymateb i’r cynnig gan Estyn wedi’i ddarparu’n llawn yn Atodiad 1.<br><br>Dydy Estyn ddim yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen statudol 011/2018 ac nid yw'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Fodd bynnag, mae Estyn yn ymgynghorydd statudol ar faterion fel hyn ac felly maen nhw wedi darparu eu barn ar ffactorau buddiol y cynigion.<br><br>Mae Estyn wedi ystyried elfennau addysgol y cynnig a'u casgliad nhw yw bod y cynnig yn debygol o gynnal ansawdd addysg a deilliannau i ddisgyblion yr ardal ar y lleiaf. |
| | Pam cau ysgol 'dda' yn hytrach nag un sydd angen 'gwella arwyddocaol'? | Mae’r ddogfen ymgynghori yn cydnabod bod Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol dda. Does neb yn gwadu hynny. |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | | Cafodd arolwg Ysgol Gynradd Hirwaun ei gynnal yn 2018, ac yn y flwyddyn ganlynol cynhaliodd Estyn ymweliad pellach. Ar ôl yr ymweliad dywedodd Estyn bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd arwyddocaol mewn perthynas â'u hargymhellion.<br><br>O ganlyniad i hyn, tynnodd Estyn Ysgol Gynradd Hirwaun oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen 'gwella arwyddocaol' a nodi nad oedd angen cynnal rhagor o ymweliadau. Mae arolwg yn darparu cipolwg ar yr ysgol mewn un cyfnod. Fyddai Ysgol Gynradd Hirwaun ddim wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr yma petai unrhyw un o bryderon Estyn yn dal i beri gofid.<br><br>Mae'n bwysig nodi bod cyflawniad a gwelliannau ysgolion yn newid dros amser. Wrth lunio'r cynnig, roedd y ddwy ysgol yn derbyn cymorth craidd gan wasanaethau gwella ysgolion Consortiwm Canolbarth y De. Does yr un o'r ddwy ysgol angen rhagor o gymorth oherwydd problemau amlwg. |
| | Y gallu i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru'n llwyddiannus | Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod bod athrawon Ysgol y Rhigos yn darparu addysg wych i ddisgyblion, ond mae hefyd yn nodi'r heriau wrth ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgol fach sy'n mynd yn hŷn.<br><br>Dydy'r ddogfen ddim yn nodi nad yw staff Ysgol Gynradd y Rhigos yn cyflawni eu dyletswyddau o ran darparu'r Cwricwlwm i Gymru, ond yn hytrach yn amlygu'r anawsterau o wneud hynny o fewn cyfyngiadau'r ysgol mewn perthynas â'i maint a'i hoed, a'r her bydd hyn yn ei achosi wrth fynd ymlaen yng ngoleuni niferoedd disgyblion sy'n gostwng. Mae'r posibilrwydd o fodelau arweinyddiaeth wedi'i gyfyngu mewn ysgolion llai oherwydd bod y gweithlu'n llai. |
| | Bydd llai o ryngweithio rhwng rhieni ac athrawon, a bydd perthnasoedd yn dioddef gan fod disgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol ar fws. | Mae plant eisoes yn teithio o gymuned Penderyn i Ysgol Gynradd Hirwaun felly mae'r ysgol wedi sefydlu systemau er mwyn sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn effro i'r holl faterion sydd wedi codi yn yr ysgol. Pe bai'r cynnig yma'n mynd rhagddo, byddai'r system yma'n parhau er mwyn cefnogi disgyblion newydd sy'n ymuno â'r ysgol a'u teuluoedd. |
| **Niferoedd a chapasiti disgyblion** | Sut mae rhagamcanion disgyblion yn cael eu cyfrifo? | O ran rhagamcanion disgyblion, mae'r Cyngor yn casglu data geni gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer ardal Rhondda Cynon Taf. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu dyddiad geni a chod post pob disgybl. Mae hefyd lwfans ar gyfer datblygiadau tai |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | | newydd a disgyblion presennol er mwyn sicrhau bod y rhagamcanion yn gywir.<br><br>Mewn perthynas â disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol, rydyn ni'n defnyddio'r dull cadw cohort. Mae hyn yn golygu cymryd yn ganiataol bod nifer y disgyblion ym mhob blwyddyn yr un ffigur â'r flwyddyn flaenorol, a lluosi'r ffigur hwnnw â ffigur cyson. |
| | Pam gafodd Ysgol Gynradd Hirwaun ei hadeiladu â chapasiti mor fawr? | Mae gan Gynllun Datblygu Lleol cyfredol y Cyngor, a'i fabwysiadwyd yn 2011, ddyraniad tai arwyddacaol wedi'i nodi yn rhan o safle strategol yn rhan o dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun. Yn ogystal â hynny, pan gafodd yr ysgol ei datblygu roedd cyfleoedd twristiaeth a masnachol hefyd yn cael eu datblygu yn ogystal â'r cynlluniau ar gyfer troi'r A465 yn ffordd ddeuol. Gan fod llawer o sylw ar yr ardal yma ar lefel ranbarthol ar y pryd ac hyd heddiw, byddai'r Cyngor wedi colli cyfle drwy beidio â chynnwys capasiti ychwanegol yn yr ysgol.<br><br>Mae Cynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor yn cael ei baratoi ar hyn o bryd felly dydyn ni ddim yn gwybod a fydd dyraniadau tai newydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, os bydd yr un dyraniad tai newydd yn cael ei nodi yn y cynllun newydd, bydd y capasiti ychwanegol yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion newydd yn sgil hynny.<br><br>Rydyn ni'n gwrthbrofi unrhyw sylwadau sy'n honni bod maint Ysgol Gynradd Hirwaun yn ymwneud ag unrhyw beth heblaw am gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd. |
| | Mae capasiti ychwanegol mewn nifer o ysgolion yn RhCT, pam mai Ysgol y Rhigos yn unig sy'n cael ei heffeithio? | Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli capsiti ei ysgolion yn effeithiol. Mae lleoedd, capasiti, derbyn a rhagamcanion ysgolion yn cael eu craffu'n barhaus. Mae'r Cyngor wedi rhoi cynigion aildrefnu ar waith sydd wedi effeithio ar dros 40 o ysgolion dros y 10 mlynedd diwethaf, a byddwn ni'n parhau i adolygu pob ysgol.<br><br>Rhaid cynnwys gwybodaeth am gapasiti pob ysgol sy'n cael ei heffeithio gan y cynnig ym mhob dogfen yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru. Fydd yr ymgynghoriad ddim yn ddilys heb gynnwys yr wybodaeth yma.<br><br>Mae'r cynnig yma wedi'i baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad am nifer o resymau. Dydy'r rhesymeg |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | | dros y cau ddim yn seiliedig ar un ffactor yn unig. Mae capasiti'r ysgol wedi'i gynnwys er gwybodaeth, ynghyd â setiau data eraill er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn effro i'r darlun ehangach ar gyfer y cynnig dan sylw. |
| **Categoreiddio ysgolion gwledig** | Pam nad yw Ysgol Gynradd y Rhigos yn cael ei hystyried yn ysgol wledig? | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhestr o ysgolion gwledig ar gyfer y rhagdybiaeth gweithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Oherwydd hynny, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru yn nodi bod dosbarthiad Trefol Wledig y Swyddfa Ystadegau wedi'i ddefnyddio yn sail ar gyfer dosbarthu ysgolion at y diben yma.<br><br>Mae'r ysgolion gwledig ar y rhestr wedi'u lleoli mewn pentrefi sy'n bell o bentrefi eraill, eraill (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun pellaf, ac eraill (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) mewn cyd-destun sydd ddim mor bell. Does dim ysgol yn Rhondda Cynon Taf ar y rhestr o ysgolion gwledig gan nad oes unrhyw ysgol yn yr ardal yn diwallu'r meini prawf uchod.<br><br>Er eglurder, mae pentrefi y Rhigos a Hirwaun wedi'u nodi yn bentrefi gwledig ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ond does yr un o'r ddau yn diwallu'r meini prawf i fod ar y rhestr fel sydd wedi'i nodi uchod. |
| | Derbyniodd y Cyngor Grant Ysgol Fach a Gwledig gan Lywodraeth Cymru a dyrannwyd y grant i Ysgol Gynradd y Rhigos, sy'n dangos bod y Cyngor yn cydnabod ei bod yn ysgol wledig. | Mae hyn yn wir. Ysgol Gynradd y Rhigos oedd un o'r ysgolion a dderbyniodd gyllid drwy'r grant yma. Ers 2017/18, mae 13 ysgol ledled Rhondda Cynon Taf wedi derbyn y grant yma. |
| **Trafnidiaeth a theithio** | Dydy'r costau cludiant rhwng yr ysgol a gartref ddim ar gael. | Mae'n anochel y bydd cost ar gyfer cludiant rhwng yr ysgol a gartref ac mae hyn wedi'i gydnabod yn y ddogfen ymgynghori, ac wedi'i nodi'n anfantais yn yr asesiad ar y cynnig.<br><br>Os bydd y cynnig yma'n symud i'r cam nesaf, bydd unrhyw gytundeb cludiant rhwng yr ysgol a gartref yn destun cystadleuaeth dendro. Gan fydd nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun yn ffactor ym maint y drafnidiaeth sydd ei hangen a bydd |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | | hyn yn effeithio ar gostau'r gwasanaeth, dydy'r wybodaeth ariannol yma ddim ar gael. |
| | Fydd dim cyfleoedd teithio llesol i'r disgyblion hynny sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd. | Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd raid i ddisgyblion sy'n byw yn y Rhigos deithio i Ysgol Gynradd Hirwaun naill ai ar fws neu mewn car. Mae'r wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr Asesiad ar yr Effaith ar y Gymuned a does neb yn dadlau â'r wybodaeth, ond mae'r modd y bydd hyn yn cael ei liniaru'n rhannol gan gyfleoedd yr ysgol newydd o ganlyniad i gyfleusterau awyr agored Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd wedi'i gynnwys yn yr asesiad.<br><br>Mae'r Asesiad ar yr Effaith ar y Gymuned yn nodi; 'Bydd cyfle i'r disgyblion hynny sy'n teithio ar fws neu mewn car yn unol â'r trefniadau newydd brofi'r awyr agored a chael awyr iach o ganlyniad i'r cyfoeth o gyfleusterau yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd canopïau allanol, y dosbarth awyr agored, y buarth eang, y cae chwarae, gerddi ac ati i gyd yn gyfle i gefnogi a meithrin iechyd a lles disgyblion a staff'. |
| | Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn bellach i ffwrdd nag Ysgol Gynradd y Rhigos felly bydd ôl-troed carbon y disgyblion hynny'n uwch. | Oherwydd y pellter rhwng Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos, bydd pob disgybl sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd y Rhigos yn gymwys ar gyfer cludiant rhwng yr ysgol a gartref felly fydd dim angen teithiau niferus yn y car i gyrraedd yr ysgol.<br><br>Os bydd y cynigion yn cyrraedd y cam nesaf, bydd y Cyngor yn cau adeilad aneffeithlon ac yn symud disgyblion i ysgol effeithlon o ran ynni, felly byddai roi'r cynnig yma ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar yr ôl-troed carbon. |
| | Os oes argyfwng, sut bydd fy mhlentyn yn cyrraedd gartref os nad oes car gen i? | Mae plant o gymuned Penderyn eisoes yn teithio i Ysgol Gynradd Hirwaun ar gludiant ysgol, felly mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun systemau cadarn yn eu lle i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn effro i unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y dydd. Os bydd y cynnig yn cyrraedd y cam nesaf, bydd y cyfathrebu yma'n parhau er mwyn cefnogi disgyblion hen a newydd a'u teuluoedd.<br><br>Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun, a phob ysgol arall, ddyletswydd dros ofal a lles pob disgybl. Petai unrhyw broblemau neu argyfyngau'n codi yn ystod y dydd, bydd staff Ysgol Gynradd Hirwaun yn sicrhau eu bod nhw'n cymryd y camau perthnasol er mwyn cefnogi unrhyw deuluoedd sydd ddim â'r modd i fynd i'r ysgol. |
| | Mae'r traffig wrth Ysgol Gynradd | Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun faes parcio i staff ac ymwelwyr, yn ogystal â chyfleuster i fysiau ollwng plant |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | Hirwaun eisoes yn brysur. | wrth yr ysgol. Yn rhan o ofynion cynllunio'r prosiect, cafodd man gollwng/maes parcio oddi ar y safle ei adeiladu. Mae'r maes parcio ychwanegol yma wedi lleihau'r tagfeydd y tu allan i Ysgol Gynradd Hirwaun ar ddechrau a diwedd y dydd yn sylweddol. Does dim maes parcio i staff na maes parcio cymunedol ar safle Ysgol Gynradd y Rhigos.<br><br>Ers cynnal y gwaith yma, dydy'r Cyngor nag Ysgol Gynradd Hirwaun ddim wedi derbyn unrhyw gwynion yn ymwneud â pharcio a thagfeydd.<br><br>Gan fod pob disgybl sy'n byw yn dalgylch Ysgol Gynradd y Rhigos yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol, does dim disgwyl i'r cynllun yma effeithio'n fawr ar draffig. |
| | Dydw i ddim yn fodlon i fy mhlentyn deithio ar fws ysgol heb oedolyn. | Mae Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor yn cludo miloedd o blant rhwng 3 ac 19 oed i ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni'n deall y gall hyn beri pryder i rieni wrth i'w plant deithio ar fws ysgol am y tro cyntaf, neu deithio i'r ysgol am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae meini prawf llym yn eu lle ac mae'n rhaid i ddarparwyr cludiant lynu ato er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion. Diogelwch disgyblion yw'r peth pwysicaf i ni. |
| | Mae amlder trafnidiaeth gyhoeddus o'r Rhigos i Hirwaun yn gyfyngedig ac mae'r gost yn atal pobl rhag ei defnyddio'n gyson. | Yn anffodus, dydy cost a gweithredu trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal ddim yn rhan o gylch gwaith y Cyngor.<br><br>Bydd cyfle i bob disgybl sy'n byw yn y Rhigos fanteisio ar ddarpariaeth cludiant rhwng yr ysgol a gartref, felly dydyn ni ddim yn disgwyl y bydd raid gwneud nifer o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus. |
| | Os bydd y nifer o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Hirwaun yn is na'r disgwyl, fydd y cludiant yn cael ei ganslo? | Na fydd. Yn unol â'r meini prawf pellter yn Mesur Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru, bydd y ddarpariaeth cludiant yma'n parhau waeth y niferoedd o ddisgyblion sy'n manteisio arni. |
| **Effaith ar ddisgyblion** | Trefniadau Pontio | Os bydd y cynnig yn cyrraedd y cam nesaf, bydd cymorth wedi'i dargedu ar gael i ddisgyblion o Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos. Mae pontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefi yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | | ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd yr ysgol newydd a'r staff.<br><br>Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer pob ysgol i sicrhau bod y broses bontio mor ddidrafferth a dibryder ag sy'n bosibl. |
| | Dydy lles disgyblion ddim wedi cael ystyriaeth. | Mae lles pob disgybl yn bwysig iawn i ni. Bydd y trefniadau pontio sy'n cael eu darparu, fel sydd wedi'u nodi uchod, yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i helpu disgyblion i lywio'r newidiadau ac ymgartrefi yn yr ysgol newydd mor gyflym â phosibl.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, ac mae'r Cyngor yn ystyried buddion y cynnig i blant a phobl ifainc yn unol â'r saith prif amcan sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. |
| | Bydd plant Ysgol y Rhigos yn teimlo eu bod nhw ar gyrion yr ysgol wrth fynychu ysgol sydd y tu hwnt i'w cymuned. | Mae Ysgol Gynradd Hirwaun eisoes yn croesawu plant o gymunedau eraill a chafodd y dalgylch ei ymestyn i gynnwys disgyblion Penderyn yn 2021, ac mae nifer o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n byw y tu hwnt i'r dalgylch. Cafodd ddisgyblion Penderyn eu croesawu i deulu Ysgol Gynradd Hirwaun ac maen nhw wedi ymgartrefi yn eu hysgol newydd. Dyma gadarnhau nad yw disgyblion newydd yn cael eu trin yn wahanol ac rydyn ni'n sicr y bydd unrhyw ddisgybl o Ysgol y Rhigos sy'n pontio i Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael eu croesawu. |
| **Effaith ar staff** | Pa gymorth sydd ar gael i staff? | Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.<br><br>Mae swyddogion AD eisoes wedi gweld pob aelod o staff Ysgol Gynradd y Rhigos ac mae'r aelodau o staff i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael. |
| **Cyfreithlondeb y broses ymgynghori** | Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhy fyr. | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru yn nodi paramedrau'r ymgynghoriad. Mae'r cod yn nodi bod rhaid i'r bobl sy'n rhan o'r ymgynghoriad gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen. Yn yr ymgynghoriad yma, cafodd y bobl 47 diwrnod, sy'n mynd y tu hwnt i'r gofyniad statudol sydd arnon ni. |
| | Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno yn y | Diben y ddogfen ymgynghori yw cyflwyno cynnig, ac mae'r ffaith mai cynnig yn unig oedd dan sylw ar y pryd wedi'i nodi'n gyson trwy gydol y dogfennau. I |

DRAFT

| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | | |
|---|---|---|
| **Thema** | | **Eglurhad** |
| | dogfennau'n dangos tuedd o blaid Ysgol Gynradd Hirwaun. | gadarnhau, mae'r holl wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno wedi'i gwneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae rhai ymatebion yn mynd ati i gwestiynu'r dewis o luniau yn y ddogfen. Er eglurder, mae'r un data wedi'u cynnwys ar gyfer y ddwy ysgol yn adran 'Ble rydyn ni nawr' y ddogfen, ac mae lluniau o wedd allanol yr ysgolion wedi'u cynnwys. Cafodd ragor o wybodaeth am Ysgol Gynradd Hirwaun a lluniau ohoni eu cynnwys yn y ddogfen gan eu bod nhw'n nodi'r buddion canfyddiedig o drosglwyddo disgyblion o'r Rhigos i Hirwaun. Does dim bwriad o ddangos tuedd, dim ond arddangos y cynllun mewn ffordd resymegol a chyson.<br><br>Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gwrthbrofi'r sylw yma. |
| | Mae'r data sy'n cael eu cyflwyno yn y ddogfen wedi dyddio a ddim yn ddilys. | Mae'r data sy'n rhan o'r adroddiad yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru.<br><br>Y data sydd yn y ddogfen oedd y data mwyaf diweddar ar adeg llunio'r ddogfen. Mae'r setiau data yn cydymffurfio â'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn y cod. O ran niferoedd y disgyblion sydd yn yr adroddiad, mae gwahaniaeth rhwng disgyblion oed statudol a disgyblion sydd ddim o oed statudol.<br><br>Mae gwybodaeth Estyn sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad wedi'i thynnu o'r arolygon diweddar sydd wedi'u cynnal yn ysgolion cynradd Hirwaun a'r Rhigos yn 2018 a 2019. Mae hyn i gyd yn unol â'r cod sy'n nodi bod rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys 'gwybodaeth o adroddiadau Estyn mwyaf diweddar yr ysgolion.'<br><br>Mae'r wybodaeth o'r Arolwg Cyflwr sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yn dod o'r arolwg mwyaf diweddar a gynhaliwyd yn 2019. Mae hyn yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru sy'n nodi 'mae'r wybodaeth am ansawdd llety mewn ysgolion presennol yn debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion gan gynnwys cyfeiriad i arolwg cyflwr mwyaf diweddar y Cyngor'. |

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ac yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:

DRAFT

1. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?
2. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
3. Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

Mae'r tabl sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. O ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd, bydd yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg sy'n dod law yn llaw â'r cynnig yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

| **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau** | **Atebion** | | | | | |
| | **Nac ydw** | | **Ydw** | | **Ddim yn siŵr** | |
| | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** |
| Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg? | 45 | 18.8 | 24 | 10.0 | 170 | 71.2 |
| Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | **Nac ydw** | | **Ydw** | | **Ddim yn siŵr** | |
| | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** |
| | 42 | 17.5 | 20 | 8.4 | 177 | 74.1 |
| Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg? | **Cynyddu Effeithiau Cadarnhaol** | | **Lleihau Effeithiau Negyddol** | | **Ddim yn siŵr** | |
| | • **Ysgolion Cyfrwng Cymraeg** - Yr unig ffordd y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yw trwy anfon plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br>• **Addysgu rhagor o Gymraeg** - Bydd addysgu rhagor o Gymraeg mewn ysgolion yn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. | | • **Dosbarthiadau llai** - Bydd gan athrawon mewn dosbarthiadau mwy gyfrifoldeb mawr a llai o amser i ganolbwyntio ar bob disgybl, felly bydd y Gymraeg yn cael ei heffeithio'n negyddol. | | **Rhif** | **%** |
| | | | | | 232 | 97.1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • **Pontio i ysgolion Cymraeg** - Mae'n bosibl y bydd y cynnig yn arwain at ragor o blant yn pontio i'r ysgol Gymraeg gyfagos - Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn. | | | |

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly yn rhan o’r gwaith o geisio barn ar y cynnig, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys y cwestiwn a ganlyn:

1. Sut byddai'r cynigion yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:

- Rhyw
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Rhywioldeb
- Crefydd neu gred
- Hunaniaeth Rhywedd
- Statws perthynas
- Beichiogrwydd
- Iaith o'ch dewis

Ni dderbyniwyd ateb i'r cwestiwn yma gan y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd - wnaeth 228 (95.4%) ddim ateb y cwestiwn. Fodd bynnag, dywedodd 4 (1.7%) y gallai'r cynnig effeithio'n negyddol arnyn nhw oherwydd eu hoedran, a dywedodd 7 (2.9% y gallai'r cynnig effeithio'n negyddol arnyn nhw oherwydd eu hanabledd. O ganlyniad i'r ymatebion yma, bydd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ymwneud â'r cynnig yma'n cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

# 6. Ymateb Estyn

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen statudol 011/2018, mae’r ymateb i’r cynnig gan Estyn wedi’i ddarparu’n llawn yn Atodiad 1. Dydy Estyn ddim yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru ac nid yw'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, ac yntau'n gorff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar fanteision cyffredinol y cynnig o ran trefniadaeth yr ysgol yn unig.

DRAFT

Ystyriodd Estyn y posibilrwydd bod y cynnig yma'n debygol o gynnal ansawdd y ddarpariaeth addysgol a deilliannau i ddisgyblion yr ardal, ar y lleiaf. Mae'r ymateb yn nodi bod yr 'Awdurdod Lleol wedi nodi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'r cynnig yn amlinellu'r nifer o fuddion sy'n gysylltiedig â chau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun'.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru, mae’r meysydd ymateb gan Estyn sy'n gofyn am eglurhad wedi’u nodi yn y tabl sy’n dilyn.

| **Ymateb Estyn** | |
|---|---|
| **Ymateb Estyn** | **Eglurhad** |
| Mae'r cynnig yn ystyried yr effaith ar ansawdd a safonau addysg gan gynnwys adrannau unigol ar ddeilliannau, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheoli. Er bod yr adrannau ar ddeilliannau a darpariaeth yn ymddangos yn deg ac yn rhesymol, mae'r adran ar arweinyddiaeth a rheoli yn rhy gyffredinol a dydy hi ddim yn canolbwyntio'n ddigonol ar effaith y cynnig ar arweinwyr y ddwy ysgol. Mae'r cynnig yn nodi y byddai trosglwyddo disgyblion o Ysgol Gynradd y Rhigos i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn darparu cyfleusterau awyr agored eang, gan gynnwys mannau gwyrdd, i ddisgyblion chwarae a dysgu. Mae'r cynnig yn cymryd yn ganiataol y byddai lles ac agweddau disgyblion at ddysgu yn elwa ar gael man awyr agored amrywiol maen nhw'n gallu ymgysylltu â hi. Mae'r cynnig hefyd yn nodi y byddai adeilad ysgol addas i'w ddefnyddio yn fuddiol er mwyn creu amgylchedd dysgu gwell. Mae'r sawl sy'n gyfrifol am y cynnig yn nodi bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y cwricwlwm yn yr ysgol. | Bydd goblygiadau staffio i'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn Ysgol Gynradd y Rhigos. Er enghraifft, bydd rhai rolau sy'n cael eu dyblygu ar hyn o bryd yn strwythur staffio Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd staff yn bryderus am ddiogelwch eu swyddi felly byddwn ni'n ymateb i'r pryderon yma cyn gynted â phosibl yn ystod y broses ymgynghori statudol. Byddwn ni'n ymgynghori â staff ac yn manteisio ar Bolisi Rheoli Newid y Cyngor er mwyn archwilio opsiynau ar gyfer staff sy'n cael eu heffeithio. |

# 7. Asesiad o'r Ymgynghoriad

Mae'n bwysig nodi y derbyniwyd nifer o ymatebion emosiynol ac angerddol iawn yn ystod yr ymgynghoriad. Derbyniwyd negeseuon gan staff, disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, cyn ddisgyblion, aelodau o'r cymunedau ac aelodau etholedig lleol a rhanbarthol. Mae'n glir bod Ysgol Gynradd y Rhigos yn bwysig iawn i nifer o bobl, ac os y penderfyniad terfynol yw cau'r ysgol, rydyn ni'n cydnabod y byddai'r gymuned yn teimlo'r golled. Rydyn ni'n cydnabod hyn yn yr adroddiad ac yn yr Asesiad o Effaith ar y Gymuned.

DRAFT

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru, rydyn ni wedi cynnal asesiad pellach o'r cynnig. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad ar yr un materion a gafodd eu hasesu wrth lunio'r cynnig, yn ogystal â rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ymatebion a sylwadau a dderbyniwyd yn rhan o'r ymgynghoriad. Cafodd y cynnig ei ailasesu er mwyn ystyried:

- Yr effaith debygol ar ansawdd a safon yr addysg;
- Yr effaith debygol ar y gymuned; ac
- Yr effaith debygol ar drefniadau teithio gwahanol.

Ar ôl ystyriaeth bellach o'r cynnig, ac ar ôl ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd, y casgliad yw mai'r cynnig yma yw'r opsiwn mwyaf addas ac felly does dim newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig.

# 8. Casgliad

Does dim o'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ger bron pawb yn ystod yr ymgynghoriad wedi golygu bod angen newid y Ddogfen Ymgynghori, ac felly mae'r wybodaeth yn y ddogfen yn parhau i fod yr un peth. Felly, caiff ei ystyried y dylid rhoi'r cynnig yma ar waith, heb unrhyw newidiadau iddo fe.

Argymhelliad yr adroddiad yma yw y dylai Hysbysiad Statudol gael ei gyhoeddi i adlewyrchu'r cynnig yn unol â'r ymgynghoriad heb newidiadau, er mwyn mynd â'r cynnig yma yn ei flaen.

DRAFT